# DATBLYGU EICH BUSNES
## Ebrill – Gorffennaf 2019

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Tu ôl i'r targed ■ Melyn: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

**Cyfanswm sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 1/10/2015**

**10,392** O FUSNESAU a **21,049** O UNIGOLION


### Y Gwasanaeth Cynghori ■

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol wedi'i deilwra ar gyfer Busnesau Ffermio a Choedwigaeth.

Y nod yw sicrhau bod busnesau yn:

- elwa o gefnogaeth busnes a/neu gyngor technegol, wedi'i deilwra i anghenion eich busnes
- lleihau costau trwy gynyddu effeithlonrwydd ar draws pob maes o'ch busnes
- meincnodi eich perfformiad ac yn gweithio tuag at gynnydd a thwf
- adnabod meysydd i wella a chanfod atebion i broblemau

Ceisiadau a Hawliwyd yn ôl Categori




Adborth gan fusnesau ar y ddarpariaeth:

*"Cyngor gwych. Cefais gyngor ar bridd a rheoli cnydau ac rwyf wedi deall mwy yn ystod y sesiynau yma nag erioed! Byddem yn argymell y cyngor!"*

*"Roedd gan yr ymgynghorydd ystod eang o ddealltwriaeth o wahanol systemau fferm, ac roedd hyn yn angenrheidiol yn eich achos ni er mwyn gwerthuso'r system bresennol a gwneud penderfyniadau at y dyfodol. Gyda chyllid y Gwasanaeth Cynghori, mae wedi cynnig gwerth da am yr arian."*

### Cymorthfeydd Meincnodi Cig Coch

**18** CYMHORTHFA gyda **96** O FYNYCHWYR

Pynciau a drafodwyd:

- Gwella cynhyrchiant
- Canrannau ŵyna a lloia
- Cynllunio ar gyfer y dyfodol
- Rheoli costau a chynyddu allbynnau
- Sut i feincnodi'n gywir
- Adnabod gwendidau yn y busnes

### Cymorthfeydd un-i-un ■

Mae'r cymorthfeydd yn sesiynau un-i-un am awr gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

Un i Un

**Targed blynyddol = 60 Targed wedi'i gyflawni = 42**

- 2 GYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES DIGIDOL
- 14 CYMHORTHFA OLYNIAETH
- 5 CYMHORTHFA GYNLLUNIO
- 3 CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO

### Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol ■

…Sioeau teithiol yn ymwneud â sector penodol, digwyddiadau galw heibio a gweithdai.

**Targed blynyddol = 70**
**Digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn = 45**

Digwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- SIOE DEITHIOL IECHYD A DIOGELWCH
- DECHRAU FFERMIO
- SIOEAU TEITHIO ARALLGYFEIRIO
- IAITH Y PRIDD
- GWEITHDAI CNEIFIO
- MERCHED MEWN AMAETH – TEITHIAU DARGANFOD

Cynhaliwyd **45** DIGWYDDIAD gyda **921** O FYNYCHWYR

### Astudiaeth Achos
### Merched mewn Amaeth – Teithiau Darganfod

Er mwyn dathlu pen-blwydd 'Merched mewn Amaeth' yn ddeg oed, gwahoddwyd merched sy'n gweithio ym myd amaeth ledled Cymru i ddod ynghyd ar daith unigryw lle cawsant gyfle i weld rhai o fusnesau gwledig mwyaf llwyddiannus Cymru, gan glywed drostynt eu hunain gan entrepreneuriaid a theuluoedd fferm yn adrodd eu hanesion ysbrydoledig.

Cafwyd chwe thaith o bob cornel o Gymru, gan stopio mewn cyfres o leoliadau am daith tu ôl i'r llen o rai o fusnesau gwledig a mentrau arallgyfeirio mwyaf ysbrydoledig Cymru ar hyd y daith.

Ar ddiwedd y daith, daeth pawb ynghyd yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, i glywed cyflwyniad gan y cneifwyr a fu'n destun ffilm "She Shears".

Adborth gan fynychwyr:

*"Fe wnes i fwynhau cwmni pawb ac fe wnes i ddysgu llawer."*

*Diwrnod gwych! Braf cael ymweld â'r holl fusnesau yma a chael cipolwg tu ôl i'r llen ar fusnesau eraill."*

*"Ystod eang o fusnesau a siaradwyr."*

*Syniad gwych! Diwrnod grêt wedi'i drefnu'n dda."*






### Grwpiau Trafod ■

**119** CYFARFOD gyda **764** O FYNYCHWYR

Mae grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn galluogi busnesau i ddysgu gan ei gilydd, i drafod heriau, ystyried cyfleoedd ac o bosib i ddod o hyd i ffyrdd newydd neu well o weithio.

### Astudiaeth Achos

Yn ystod taith ddiweddar i'r DU, estynnwyd gwahoddiad i'r arbenigwr defaid, Murray Rohloff o Seland Newydd, i roi cyflwyniadau i 12 grŵp trafod cig coch ledled Cymru.

Yn ystod y cyflwyniadau, bu Murray yn canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ffermwyr, yn enwedig ffermydd defaid yng Nghymru, wrth nesáu tuag at Brexit.

Roedd Murray yn annog ffermwyr i ddefnyddio'r cyfnod hwn i baratoi cymaint â phosibl ar gyfer Brexit drwy wella effeithlonrwydd eu busnesau eu hunain a mabwysiadu a deall dylanwad tri phrif ffactor:

1. Rheoli'r Busnes
2. Gwerth y Borfa
3. Pwysigrwydd Geneteg

Bu'n trafod gyda'r grwpiau sut mae rheoli'r borfa a geneteg yn arwain proffidioldeb, yn ogystal â phwysigrwydd meincnodi targedau perfformiad ffisegol ac ariannol, ar eu ffermydd eu hunain ac yn erbyn busnesau eraill tebyg.

#### Saith factor sy'n effeithio ar broffidioldeb

Yn ystod ei gyflwyniad, bu Murray hefyd yn canolbwyntio ar saith prif ffactor sy'n effeithio ar broffidioldeb, o'r uchaf i'r isaf:

1. Rheoli ansawdd y borfa'n fwy effeithiol ddiwedd y gwanwyn / dechrau'r haf
2. Cydweddu'r cyflenwad a'r galw yn fwy effeithiol o ran porfa'r gwanwyn
3. Cyfateb canran ŵyna / rhwyddineb rheolaeth gyda'r amgylchedd
4. Rheoli llyngyr yn fwy effeithiol
5. Gallu ffynnu a phesgi ar borfeydd agored / diet yn seiliedig ar borthiant yn unig
6. Cynyddu hirhoedledd mamogiaid a hyrddod a chapasiti hyrdda
7. Gallu byrhau'r gaeaf drwy neilltuo porfa'r hydref yn fwy effeithiol

Cafwyd sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd pob cyflwyniad, gyda thrafodaeth frwd ym mhob cyfarfod.

### Gwefan Cyswllt Ffermio a'r Cyfryngau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â thudalennau unigryw (Ebrill - Gorffennaf 2019) | 123,753 |
| Amser a dreulir ar y wefan ar gyfartaledd | 00:01:45 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter ar 31.07.2019 | 4,882 |
| Nifer sy'n hoffi ar Facebook ar 31.07.2019 | 8,195 |

### Rhwydwaith Arddangos

| Disgrifiad | Nifer y safleoedd | Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod |
|---|---|---|
| Safleoedd Arloesedd | 8 | 13 |
| Safleoedd Arddangos | 12 | 5 |
| Safleoedd Ffocws (Cyfanswm Cronnus) | 140 | 44 |

**1467** O BOBL WEDI MYNYCHU DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH ARDDANGOS

Cliciwch yma am ragor o fanylion am brosiectau a digwyddiadau ar ein rhwydwaith arddangos.

### Prosiectau ar Ffermydd

#### Prosiect Rheoli Parasitiaid

Yn ystod mis Mai, anogwyd ffermwyr i ganolbwyntio ar nematodirus, sy'n gallu bod yn niweidiol iawn i ŵyn ifanc sy'n methu ag ymdopi gyda nifer fawr o larfau parasitiaid. Cafwyd y canlyniadau canlynol yn dilyn gwaith monitro ym mis Ebrill a Mai:

| Dyddiad y sampl | Lleoliad | Math o stoc | FEC Llyngyr | FEC Nematodirus | Cyfanswm EPG |
|---|---|---|---|---|---|
| 22/4/19 | Wrecsam | Ŵyn | 210 | 210 | 420 |
| 29/5/19 | Aberhonddu | Ŵyn | 210 | 70 | 280 |
| 30/5/19 | Llanbadarn Fynydd | Ŵyn | 350 | 70 | 420 |
| 31/5/19 | Aberystwyth | Ŵyn | 595 | 420 | 1015 |

Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r ffermwr i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â pha driniaeth llyngyr maen nhw'n ei ddefnyddio. Nematodirus yw'r ffocws o hyd, ond nid yw'r drensh gwyn a ddefnyddir i'w drin bob amser yn effeithiol ar gyfer rhywogaethau llyngyr. Roedd milfeddygon y ffermwyr yn gallu rhoi cyngor ynglŷn â'r driniaeth orau i'w defnyddio.

Wrth symud ymlaen at fis Mehefin, roedd y gwaith monitro yn dangos pa mor amrywiol yw'r her a achosir gan Nematodirus, ond gyda'r wybodaeth hon ynghyd â chyngor milfeddygol, roedden nhw'n gallu gwneud penderfyniadau cywir ynglŷn â rheolaeth a thriniaeth.

| Dyddiad y sampl | Lleoliad | Math o stoc | FEC Llyngyr | FEC Nematodirus | Cyfanswm EPG |
|---|---|---|---|---|---|
| 23/6/19 | Llanwrda | Lambs | 420 | 35 | 455 |
| 11/6/19 | Aberystwyth | Lambs | 1225 | 490 | 1715 |
| 24/6/19 | Llanwddyn | Lambs | 35 | 0 | 35 |

#### Prosiect Porfa Cymru

Mae Prosiect Porfa Cymru yn parhau i gasglu data ar dwf glaswellt o drawstoriad o ffermydd ledled Cymru. Gan ddefnyddio mesurydd plât, mae'r ffermydd yn mesur twf ac argaeledd deunydd sych i'w galluogi i gynllunio eu harferion pori a chyfateb faint sydd ar gael gyda'r galw gan y stoc.

Mae'r tabl isod yn dangos cipolwg o'r canlyniadau oddi ar safleoedd ar ddechrau mis Gorffennaf gan nodi'r ystod o gyfraddau twf a welwyd.

| Safle | Dyddiad | Cyfradd twf dyddiol ar gyfartaledd (Kg DM/Ha) | Gorchudd fferm ar gyfartaledd (Kg DM/Ha) |
|---|---|---|---|
| Pwllheli | 08/07/19 | 48.2 | 2196 |
| Llandeilo | 08/07/19 | 57.3 | 2205 |
| Dinmael | 08/07/19 | 31.9 | 2131 |
| Llanddewi Rhydderch | 08/07/19 | 30.8 | 2034 |

Cliciwch yma am fwy o wybodaet.

#### Defnyddio gweddillion treuliad anaerobig fel gwrtaith

Mae mwy a mwy o ffermwyr yn dangos diddordeb mewn defnyddio gweddillion treuliad anaerobig fel gwrtaith. Ar safle ffocws Llyn Rhys, sefydlwyd pum llain (20x20 metr) a'u trin gan ddefnyddio maetholion ar wahanol gyfraddau. Cafodd y gweddillion eu dadansoddi cyn eu gwasgaru gan ddangos pe byddai angen 250kgN/Ha, byddai angen gwasgaru ar gyfradd o 32.6m3/Ha. Mae hyn yn uwch na'r hyn sydd angen, felly cafodd y cyfraddau gwasgaru eu lleihau i'r canlynol:

Llain 1 – 20m3/Ha gweddillion (96KgN/Ha)

Llain 2 – 15m3/Ha gweddillion (72KgN/Ha)

Llain 3 – 10m3/Ha gweddillion (48KgN/Ha)

Llain 4 – gwrtaith cyfansawdd synthetig (25:5:5.7) ar gyfradd o 125Kg/Ha

Llain 5 – dim triniaeth

Gwasgarwyd y gweddillion gan ddefnyddio offer esgid lusgo, ac ar gyfer pob tunnell o weddillion a wasgarwyd, roedd cyfwerth â 20Kg o $CO_2$ yn cael ei storio yn y pridd, yn ogystal â chynyddu deunydd organig y pridd. Bydd cyfraddau twf yn cael eu monitro drwy'r tymor er mwyn asesu perfformiad.

#### Cyfathrebu'r canlyniadau

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith a wneir fel rhan o'r Rhwydwaith Arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei ddysgu drwy gynnal prosiectau gan gynnwys:

Erthyglau: Mae 20 wedi cael eu creu –mae pob erthygl ar wefan Cyswllt Ffermio, a gan ddibynnu ar y cynnwys, mae rhai ohonynt yn cael eu rhannu gyda'r Farmers Guardian, Farmers Weekly, NSA a'r Undebau Ffermio.

Blogiau a chlipiau fideo – i ddarparu diweddariadau ar safleoedd – mae 9 wedi cael eu paratoi

Cyfryngau cymdeithasol

Diweddariadau Facebook: 157

Diweddariadau Twitter: 3211

Clipiau fideo: 15

Ymweliadau â'r wefan:

Safleoedd Arloesedd: Saesneg – 168. Cymraeg 15

Safleoedd Arddangos: Saesneg – 771, Cymraeg 46

Safleoedd Ffocws: Saesneg – 774, Cymraeg 90




Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government